# Nodyn Briffio:
# Cynigion Rheoli Pysgota: Is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen a rhwyd yng Nghymru
# 16.3.2018

**DULLIAU NEWYDD ARFAETHEDIG AR GYFER RHEOLI PYSGOTA I FYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD O RAN STOCIAU EOGIAID A RHAI BRITHYLLOD Y MÔR YNG NGHYMRU – DIWEDDARIAD**

**Tîm Pysgodfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru.**

**CYFLWYNIAD**

Mae ein stociau eogiaid mewn perygl difrifol, ac wedi dirywio i lefel hanesyddol isel.  Mae'r un peth yn wir am oddeutu hanner ein stociau brithyllod y môr.  Ni all y naill na'r llall ddioddef dulliau lladd pysgod heb reolaeth, gan ei fod yn hanfodol i ni sicrhau bod yr holl bysgod yn cael y cyfle i oroesi a bridio.

Mae'r ffenomen hon yn gyffredin ar draws yr amrediad o eogiaid Gogledd yr Iwerydd, ac ar hyn o bryd mae'r awdurdodaethau eraill yn Ynysoedd Prydain a thu hwnt i gyd yn mynd i'r afael â'r un mater yn yr un ffordd yn fras.

Er bod nifer o resymau sy'n cyfrannu at ddirywiad y stoc, gan gynnwys y pysgod yn marw yn y môr ac amodau gwael yn ein hafonydd gan gynnwys digwyddiadau llygredd amaethyddol annerbyniol, mae amddiffyn ein hadnodd bridio gwerthfawr o bysgod gwyllt yn ofyniad sylfaenol.

Er bod y rhan fwyaf o bysgotwyr wedi derbyn ac addasu i'r gofyniad brys i ddychwelyd y pysgod maent yn eu dal, fel y gallant oroesi er mwyn silio, mae rhai heb wneud hynny.  Nid yw tua chwarter y pysgotwyr yn arfer y dull pysgota dal a rhyddhau, gan ffafrio lladd y pysgod maent yn eu dal. Mewn amgylchiadau mwy arferol byddai hyn yn dderbyniol, ond mae'r diffyg mawr o ran pysgod bellach yn golygu nad yw eu lladd yn gynaliadwy.

Er mwyn sicrhau cadwraeth ein stociau, daeth Cyfoeth Naturiol Cymru i'r casgliad bod angen dulliau rheoli statudol newydd ar bysgota. Gwnaethom drafod yn helaeth â physgotwyr a rhanddeiliaid eraill yn ystod proses a barodd dwy flynedd, ac arweiniodd hynny at ymgynghoriad statudol yn ystod hanner olaf 2017 ar gynigion ar gyfer dulliau rheoli newydd ar bysgota.  Ein cynigion yw bod yr holl eogiaid yn cael eu dychwelyd yn fyw ac yn iach i'r afon gan bysgotwyr gwialen a rhwyd, ynghyd â chyfyngiadau ar y dulliau sy'n gymesur â physgota dal a rhyddhau effeithiol.  Cynigir cyfyngiadau tebyg ar gyfer y stociau brithyllod y môr sydd hefyd yn perfformio'n wael.

Mae'r nodyn hwn yn amlinellu'r cefndir ar gyfer hynny.

## ASESU STOCIAU EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd ar statws stoc eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru bob blwyddyn, gan gymharu amcangyfrifon o ddigonedd o bysgod sy'n silio ymhob prif ddalgylch gyda thargedau meintiol. Mae'r dull hwn o weithredu wedi bod ar waith am 15 mlynedd. Dyma'r un dull ag a ddefnyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, cafodd ei ganiatáu gan lywodraethau priodol ac fe'i hadroddir bob blwyddyn i Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES) a Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd (NASCO, a sefydlwyd drwy gynhadledd rynglywodraethol).

Dangosodd yr asesiadau yr adroddwyd amdanynt yn fwyaf diweddar: -

> <u>Statws stoc eogiaid</u>
> Mae statws ein stociau eogiaid yng Nghymru yn wael iawn gyda 20 o'r 23 prif stociau eogiaid mewn afonydd yn methu â chyrraedd eu targedau rheoli ac maent yn debygol o aros yn y cyflwr hwn tan o leiaf 2021.
>
> Mae pob un heblaw am dri a aseswyd yn parhau i ddirywio.
>
> Mae chwe afon sy'n methu (gan gynnwys y ddwy afon drawsffiniol, sef Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy) wedi'u dynodi yn safleoedd Natura 2000 o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE, gydag eogiaid yn cyfrannu at y dynodiad hwn.
>
> Mae rhai yn pryderu ein bod yn gosod mesurau cyffredinol ledled Cymru am resymau a symleiddiwyd ac nad ydynt yn cyfeirio at berfformiad afonydd unigol. Fodd bynnag, mae cysondeb y methiant stoc wedi sbarduno ymateb daearyddol cyffredinol, ac mae'n ymateb sy'n seiliedig ar asesiadau afonydd unigol.
>
> <u>Statws stoc brithyllod y môr</u>
> O'r 33 o afonydd brithyllod y môr a gydnabyddir yng Nghymru, rydym yn asesu bod 21 yn methu â chyflawni eu targedau.

## RHEOLI STOCIAU EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR

Cafodd y gyfundrefn reoli stociau eogiaid yng Nghymru a Lloegr ei sefydlu yn 1998 yn dilyn Cyfarwyddyd Gweinidogol ac yn sgil cyngor gan NASCO. Mae 'Strwythur Penderfyniad' cysylltiedig yn ei wneud yn ofynnol i ni fynd i'r afael â stociau diffygiol drwy gyflwyno mesurau sy'n golygu nad oes unrhyw achosion o "ymelwa drwy wialen a rhwyd ar frys (gan gynnwys 100% o bysgota dal a rhyddhau) gan geisio cynnal buddiannau cymdeithasol ac economaidd lle y bo'n bosibl".

Rydym wedi datblygu a mabwysiadu dull gweithredu weddol debyg ar gyfer rheoli brithyllod y môr.

Cafodd pysgota dal a rhyddhau ei gyflwyno o'r blaen yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf: -

- Gan fod y stociau wedi dirywio dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i ragflaenwyr wedi parhau i annog cyfyngiad gwirfoddol ar ladd

pysgod.  Yn gyffredinol cafodd hyn dderbyniad da gan bysgotwyr a gwnaeth y cyfraddau pysgota dal a rhyddhau gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.  Fodd bynnag, maent wedi arafu'n sylweddol yn gyffredinol ac mae'r niferoedd yn amrywio: -

- eogiaid (gan gyfuno'r statudol a'r gwirfoddol) 33% - 100% (cymedr 72%)
- brithyllod y môr: 28% i 100% (cymedr 76%).

Yn 2016 gwnaethom ailadrodd y neges yn gryf ar gyfer yr uchafswm o bysgota dal a rhyddhau, ond gwnaeth y pysgotwyr barhau i ddatgan eu bod wedi lladd dros 500 o eogiaid.  Ar afonydd lle y gallai'r pysgotwyr gymryd eogiaid, gwnaeth 56% ryddhau eu holl eogiaid, tra bo 24% wedi lladd yr holl eogiaid y gwnaethant eu dal.

- Cafodd is-ddeddfau cenedlaethol a oedd gwneud pysgota dal a rhyddhau yn ofynnol ar gyfer eogiaid gwanwyn (cyn mis Mehefin) mewn pysgodfeydd gwialen a rhwyd eu cyflwyno gyntaf yn 1999 a'u hadnewyddu yn 2009.

- Cafodd egwyddorion Strwythur y Penderfyniad eu dilyn drwy weithredu pysgota dal a rhyddhau statudol ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr ar afonydd Gwy a Thaf/Elái yn 2012.

Nid pysgod aeddfed yn unig sydd mewn perygl. Dangosodd arsylwadau diweddar leihad digynsail mewn poblogaethau eogiaid a brithyllod ifanc ar draws y rhan fwyaf o Gymru ac maent yn dangos methiant estynedig silio yn ystod gaeaf 2015/16. Mae goblygiadau sylweddol i hyn ar gyfer y niferoedd i eogiaid aeddfed yn 2019 a 2020.  Mae'n ymddangos fel pe bai tywydd eithafol, gyda thymheredd uchel estynedig a llif uchel yn lleol ar adegau critigol wedi effeithio'n sylweddol ar lwyddiant silio.  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried y canfyddiadau hyn hefyd.

## YR ACHOS TECHNEGOL DROS GEFNOGI'R CYNIGION AR GYFER DULLIAU RHEOLI NEWYDD

Cafodd ein cynigion ar gyfer dulliau rheoli pysgota eu cyhoeddi yn 2017, wedi'u hategu gan achos technegol cynhwysfawr a thystiolaeth gefndir llawn -

https://naturalresources.wales/media/684367/technical-case-structure-final.pdf

Ein dadl yw bod statws gwael ein stociau eogiaid a rhai brithyllod y môr angen ein sylw brys ac er bod y papur hwn yn canolbwyntio ar y ddadl bresennol dros ddulliau rheoli pysgota, mae'n glir bod angen camau gweithredu o dan gyfres ehangach o fentrau.

Mae ‘Agreement on Adoption of a Precautionary Approach’ gan NASCO yn 1998 yn dadlau'r achos dros ddefnyddio 'agwedd rhagofalus' i reoli pysgota eogiaid. Dyma sy'n ei wneud yn ofynnol i gael rhesymeg sy'n seiliedig ar gyfyngiadau cadwraeth stoc a thargedau rheoli wedi'u pennu ar gyfer pob afon a dulliau i ddatblygu rhaglenni ailgodi stoc ar gyfer stoc sydd islaw eu cyfyngiadau cadwraeth.  Tybir bod stociau eogiaid ar eu lefel isaf erioed, a'r cyngor clir yw na ddylid caniatáu pysgota stociau sydd islaw eu cyfyngiadau cadwraeth ond os bydd pysgota yn cael ei ganiatáu yn seiliedig ar ffactorau cymdeithasol

ac economaidd, dylid ei gyfyngu i lefel a fydd yn dal i ganiatáu adferiad stoc o fewn amserlen benodol.

## EIN CYNIGION – CRYNODEB

Cafodd ein cynigion llawn, fel y'u diwygiwyd, eu cyflwyno i'n Bwrdd ar 18 Ionawr 2018, lle y rhoddwyd cymeradwyaeth ar gyfer cais ffurfiol am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y cais hwn i Lywodraeth Cymru ar 20 Chwefror.

I grynhoi, mae'r cynigion yn cynnwys: -

| | |
|---|---|
| Eogiaid | Pysgota dal a rhyddhau statudol llawn mewn pysgodfeydd gwialen a rhwyd. |
| Brithyllod y môr | Pysgota dal a rhyddhau mewn pysgodfeydd gwialen cyn 1 Mai ar afonydd a dargedwyd<br>Cyfyngiad maint i amddiffyn pysgod mawr benywaidd epilgar. |
| Y ddwy rywogaeth | Cyfyngiadau ar ddulliau pysgota (e.e. gwaharddiad ar bysgota eogiaid â mwydod, cyfyngiadau ar fachau triphlyg a lluosog a defnyddio adfachau) i sicrhau bod y pysgod a ryddheir yn cael y cyfle gorau posib i oroesi. |
| Pysgodfeydd rhwyd | tymhorau penodedig ar gyfer pysgota â rhwyd i ddechrau'n hwyrach a gorffen ynghynt. |

Beth nad ydynt yn ei wneud: - Ni fyddent yn cau unrhyw bysgodfa. Gallai pysgota â gwialen a rhwyd barhau, ond gyda'r dulliau rheoli a amlinellir uchod.

Nid oes unrhyw waharddiad ar bysgota â mwydod fel abwyd, fel y tybir gan rai, ar wahân i bysgota eogiaid. Gallai pysgota â mwydod barhau ar gyfer brithyllod y môr gyda rhai cyfyngiadau (e.e. cyn 1 Mai, er mwyn amddiffyn cydrannau stociau pwysig).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn glir bod achos grymus dros gymryd camau gweithredu cadwraeth brys pellach er mwyn helpu i rwystro dirywiad statws stociau eogiaid a rhai stociau brithyllod y môr. Mae hyn yn hanfodol er mwyn adfer stociau i lefelau sy'n fwy iach a chynaliadwy.

Mae'r mesurau arfaethedig wedi'u cynllunio i sicrhau cymesuredd wrth gydbwyso buddiannau'r sectorau pysgota â gwialen a rhwyd tra'n mynd i'r afael â'r angen sylfaenol i amddiffyn stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru yn well. Mae'r mesurau arfaethedig yn gymesur ac yn rhesymol o ystyried y peryglon i stociau bregus sy'n dirywio ledled Cymru.

Nid yw parhau i ladd pysgod tra bod y stociau lawer yn is na'u lefelau targed yn gynaliadwy nac yn gwneud unrhyw synnwyr.

Mae ein hachos yn cydnabod bod y ddwy rywogaeth yn wynebu amrediad eang o bwysau amgylcheddol sy'n cyfyngu ar stociau a physgodfeydd (ac mae'n manylu ar y camau gweithredu parhaus i fynd i'r afael â'r rhain).

Ar gyfer eogiaid, mae'r materion parhaus sy'n gysylltiedig â'u goroesiad gwael yn y môr yn destun pryder allweddol i bob cenedl sy'n cynhyrchu eogiaid. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod yr amodau mewn dŵr croyw ar eu gorau posib ar gyfer cynhyrchu'r uchafswm o bysgod ifanc i fynd i'r môr.

Mae'n hanfodol sicrhau bod y nifer fwyaf o'r pysgod sy'n silio yn goroesi, tra bod gwaith pwysig arall ar droed i adfer cynefinoedd afonydd. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd camau gweithredu yn erbyn gweithgareddau sy'n rhoi ansawdd ein hafonydd a'n nentydd mewn perygl.

**PRYDERON GAN BYSGOTWYR**

Prin iawn y bydd mesurau fel y rhai arfaethedig yn boblogaidd gyda rhanddeiliaid, er bod ein nod yn glir er budd y poblogaethau pysgod o dan sylw, a thrwy hynny, yn y pysgodfeydd sy'n eu targedu yn y dyfodol.

Dywedodd rai mai'r hyn sy'n destun pryder yw'r posibilrwydd o gorff gwladwriaethol yn 'gosod' dulliau rheoli, yn hytrach na gadael i bysgotwyr wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch yr effaith bosibl ar yr economïau lleol, pe bai'r niferoedd sy'n pysgota yn dirywio. Fodd bynnag, safbwynt clir Cyfoeth Naturiol Cymru yw os na fydd unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cymryd o gwbl, bydd y pysgodfeydd yn parhau i ddirywio a byddai'r buddion economaidd hyn yn wynebu dyfodol ansicr iawn pe na bai camau gweithredu cadarn yn cael eu cymryd i'w hamddiffyn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried bod y cynigion cyfredol yn fuddsoddiad yn llesiant yr adnoddau naturiol hyn yn y dyfodol.

Y pryderon allweddol a fynegwyd oedd: -

- Roedd ychydig dros 80% o'r 549 o sylwadau a gafwyd yn ymateb i'n hymgynghoriad gan bysgotwyr sy'n gwrthwynebu'r holl gynigion, neu rai ohonynt.

- Gwnaeth tua hanner o'r 52 o bysgotwyr rhwydi trwyddedig ymateb, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn mynegi pryder.

- Bu gohebiaeth barhaus gan oddeutu chwe physgotwr unigol, y mae rhai ohonynt yn cynrychioli grwpiau mwy o faint, sydd wedi'u targedu at Lywodraeth Cymru erbyn hyn.

- Codwyd y mater hwn yn y Senedd yn ystod cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar 14 Chwefror gan Neil Hamilton AC, ac eto ar 21 Mawrth gan Siân Gwenllian AC.

- Bu tair deiseb gan bysgotwyr yng Ngogledd Cymru: -

    1. Crëwyd gan Glwb Pysgota Betws-y-Coed (dechreuwyd ar 23.2.18, ac yn parhau tan 6.4.18. Ar hyn o bryd yn cynnwys 1,045 o lofnodwyr, ar 27 Mawrth).

https://www.assembly.wales/en/gethome/e-petitions/Pages/petitiondetail.aspx?PetitionID=1315

"Fel mater o frys, rydym yn gofyn i Weinidog y Cabinet archwilio i ymddygiad Gweithrediaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y broses ymgynghori a'r argymhelliad ar gyfer newidiadau i is-ddeddfau pysgota â gwialen a rhwyd yng nghyfarfod bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor ar 18 Ionawr 2018, cyn derbyn unrhyw gynigion i newid yr is-ddeddfau pysgota presennol."

2. Crëwyd gan Andrew Holmes, Tachwedd 2017: (615 o lofnodwyr ar 27 Mawrth).

   I: George Eustice AS, y Gweinidog Gwladol dros Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a Phrif Weinidog Cymru Carwyn Jones "Rhowch gyfle i Eogiaid a Brithyllod y Môr yng Nghymru!"

   https://you.38degrees.org.uk/petitions/give-welsh-salmon-and-sea-trout-a-chance?bucket%20-%20signature-form

   "Gwahardd yr holl bysgota rhwyd masnachol ar raddfa fawr a gweithrediadau llongau ffatri o amgylch arfordir Cymru am isafswm o bum mlynedd
   Gwahardd yr holl Drwyddedau Cyryglau a Rhwydi Sân yn aberoedd afonydd Cymru am isafswm o bum mlynedd
   Gweithredu a gorfodi deddfwriaeth bysgota orfodol ar gyfer 'dal a rhyddhau' pysgod mudol ar holl afonydd Cymru am isafswm o bum mlynedd
   Gweithredu rhaglen stocio gynhwysfawr ar gyfer pysgod cynhenid ymhob afon drwy annog pysgotwyr i roddi pysgod byw at ddibenion bridio deorfa, yn debyg i'r rhaglen adfer lwyddiannus iawn ar Afon Tyne.
   Cryfhau a gorfodi deddfwriaeth gyfredol i waredu ar fygythiad digwyddiadau llygredd ffermio a llygredd diwydiannol."

3. Crëwyd gan Reuben Woodford (dyddiadau dechrau a gorffen anhysbys. 1,706 o lofnodwyr: ar 27 Mawrth).

   I: George Eustice AS, y Gweinidog Gwladol ar gyfer DEFRA, Lesley Griffiths AC - Gweinidog y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a Phrif Weinidog Cymru, Carwyn Jones.

   "Rhowch gyfle i Glybiau Pysgota ac Eogiaid a Brithyllod y Môr yng Nghymru"

   https://you.38degrees.org.uk/petitions/give-welsh-fishing-clubs-and-salmon-and-seatrout-a-chance

   "Rhowch gyfle i Glybiau Pysgota ac Eogiaid a Brithyllod y Môr yng Nghymru"

   "Atal gormodedd o eogiaid dal a rhyddhau drwy bennu cyfyngiadau bagiau ar gyfer dal a rhyddhau ar holl afonydd Cymru am bedair blynedd, wedi'i ddatblygu ar sail y data dalgylch penodol mewn ymgynghoriad clos â chlybiau pysgota.
   Rhoi rhaglen stocio gynhwysfawr ar waith ar gyfer pysgod cynhenid ar yr holl afonydd.
   Cryfhau a gorfodi deddfwriaeth gyfredol i waredu ar fygythiad llygredd ffermio a llygredd diwydiannol.
   "Gwahardd yr holl bysgota rhwyd masnachol ar raddfa fawr a gweithrediadau llongau

ffatri o amgylch arfordir Cymru am isafswm o ddeng mlynedd.
Blaenoriaethu'r gwaith o ddyrannu adnoddau i gynorthwyo wrth reoli materion penodol i ddalgylch sy'n gysylltiedig â chyfraddau ysglyfaethu naturiol gormodol a rhwystrau i bysgod yn mudo."

**AMSERLENNI**
Gwnaed y cais am is-ddeddfau pysgota â gwialen a rhwyd ar gyfer 'Cymru gyfan' i Lywodraeth Cymru ar 20 Chwefror, a bydd y rheini ar gyfer is-ddeddfau trawsffiniol (Dyfrdwy a Gwy) a (Hafren yng Nghymru) yn dilyn dros y ddau fis a'r chwe mis nesaf, yn y drefn honno. Mae'r amserlenni wedi'u gosod gan y broses lywodraethiant ond nid oes modd cael amserlen benodol ar gyfer cadarnhad gan Lywodraeth Cymru.

<u>Yn sgil yr ansicrwydd hwn, ac anawsterau o ran cyflwyno mesurau ynghanol y tymor, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig y dylid cyflwyno mesurau newydd a fydd yn weithredol o ddechrau'r tymhorau pysgota â gwialen a rhwyd yn 2019.</u>

**MENTER I HYRWYDDO CYFLEOEDD PYSGOTA YNG NGHYMRU**

Un o'r beirniadaethau a wnaed amlaf wrth gyflwyno sylwadau i'r ymgynghoriad oedd y byddai'r mesurau newydd arfaethedig yn arwain at gau clybiau pysgota, yn lleihau nifer y bobl sy'n pysgota, ac yn cael effaith niweidiol ar ymwelwyr i Gymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymwybodol y gallai'r mesurau arfaethedig arwain at ostyngiad o ran gweithgarwch pysgota, ond mae'n credu'n gryf fod y mesurau yn bwysig os ydym am amddiffyn a gwella ein pysgodfeydd.

Er hynny, rydym yn croesawu pysgota parhaus yng Nghymru ac er mwyn diogelu clybiau a chymdeithasau rhag y perygl o ddirywiad mewn gweithgarwch pysgota a'r incwm cysylltiedig rydym wedi gweithio gydag Afonydd Cymru ar gynllun i alluogi clybiau, cymdeithasau ac eraill i hyrwyddo eu pysgota drwy Basbort Pysgota Cymru gyfan: -

https://www.fishingpassport.co.uk/

Bydd y cyfle hwn ar gael yn ystod 2018 a byddwn ni'n hyrwyddo hwn cyn bo hir.

**CASGLIAD**

Safbwynt clir Cyfoeth Naturiol Cymru yw bod y dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad bod cynaliadwyedd ein stociau eogiaid a rhai stociau brithyllod y môr mewn perygl, ac na ellir parhau i ladd pysgod. Drwy ddod i'r casgliad hwn ac amlinellu ein cynigion mae gennym lawer yn gyffredin gyda'r awdurdodaethau cyfagos yn y DU a thu hwnt.

- Mae'n rhaid i ni ystyried Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r gofyniad i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r nodau llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn enghraifft dda o gydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu anghenion tymor hir a chynaliadwyedd tra'n gweithredu i atal y problemau rhag gwaethygu

- Yn olaf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi ymrwymiad clir i fynd i'r afael â materion eraill sy'n effeithio ar stociau, er enghraifft, ein penderfyniad i gomisiynu a gweithredu Cynlluniau Adfer Afonydd.

## DYFARNIAD DIWEDDAR GAN Y GORUCHAF LYS

Yn dilyn penderfyniad diweddar y Goruchaf Lys yn achos Mott v Asiantaeth yr Amgylchedd, mae rhai rhanddeiliaid wedi codi'r mater eto ynglŷn ag a yw ein cynigion yn rhoi cychwyn ar hawliau am iawndal o dan Erthygl 1 Protocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (‘A1P1 yr ECHR’).

Er bod y Goruchaf Lys wedi dyfarnu o blaid Mr Mott, pwysleisiodd hefyd

i) fod hwn yn achos eithriadol oherwydd y baich difrifol ac anghymesur ar Mr Mott o'i gymharu â deiliaid trwyddedau eraill;
ii) fod gan awdurdodau cenedlaethol dipyn o le i arfer disgresiwn wrth bennu dulliau rheoli amgylcheddol angenrheidiol; ac
iii) nad oes unrhyw ddisgwyliad cyffredinol am iawndal o dan A1P1 o'r ECHR ar gyfer effeithiau niweidiol.

Gan ystyried yr uchod ynghyd â'n safbwynt bod ein cynigion yn anelu at nod cyfiawn a bod y dulliau yn rhesymol gymesurol i'r nod hwnnw, nid ydym yn ystyried bod yr effaith ar randdeiliaid yn anghymesur i'r graddau y byddai'n ofynnol talu iawndal.

## GWYBODAETH GEFNDIROL BELLACH

**DATBLYGIAD CYNIGION AR GYFER DULLIAU RHEOLI NEWYDD AR BYSGOTA**
Cafodd cynigion newydd ar gyfer dulliau rheoli pysgota pellach eu datblygu er mwyn amddiffyn y stociau diffygiol o eogiaid a brithyllod y môr yn afonydd Cymru.

Er bod y rhan fwyaf o bysgotwyr wedi ymateb i geisiadau parhaus am ataliad ac yn dychwelyd y pysgod yn fyw i'r afon fel y gallant fridio, nid yw rhai yn gwneud hynny. Nid yw stociau eogiaid a nifer o stociau brithyllod y môr bellach yn gynaliadwy ac mae'n hanfodol bod poblogaethau bridio yn cael eu hamddiffyn tra bod mentrau eraill yn mynd i'r afael â'r rheswm dros ddirywiad y stoc.

**Ymgynghori ac ymgysylltu**
Drwy gydol y gwaith o baratoi ein cynigion ar gyfer dulliau rheoli pysgota newydd i fynd i'r afael â'r dirywiad parhaus mewn stociau, gwnaethom gydweithio'n helaeth â rhanddeiliaid pysgota a Llywodraeth Cymru a, lle bo'n briodol, Asiantaeth yr Amgylchedd.

Gwnaethom gasglu achos technegol cynhwysfawr, lle aseswyd opsiynau, a nodwyd cynnig terfynol ar gyfer is-ddeddfau newydd (mae'r holl ddogfennau ar ein gwefan: Tudalennau ymgynghoriad pysgota dal a rhyddhau).

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol a barhaodd am 12 wythnos (22 Awst - 14 Tachwedd) a chafodd hwn ei hysbysebu, ei hyrwyddo ar ein gwefan a'i gyflwyno i bob un o'r Grwpiau Pysgodfeydd Lleol.

**Mae ein mesurau arfaethedig ar gyfer rheoli ymelwa yn seiliedig ar:**

- Pysgota dal a rhyddhau statudol llawn ar gyfer eogiaid mewn pysgodfeydd gwialen a rhwyd ledled Cymru gan fod yr holl stociau wedi'u hasesu fel rhai anghynaliadwy ac yn agored i niwed a dirywiad parhaus.
- Dulliau rheoli ychwanegol lle y bo brithyllod y môr mewn cyflwr gwael
- Ble bynnag y bo pysgota dal a rhyddhau ar waith - dulliau rheoli statudol ychwanegol i atal dulliau nad ydynt yn gymesur â chyfraddau goroesi uchel o bysgod a ryddhawyd.

**Gwirfoddol yn erbyn statudol: Pam gorfodol?**
Un o'r gwahaniaethau allweddol a fu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r rhan fwyaf o bysgotwyr yw p'un a ddylai'r mesurau fod yn seiliedig ar ddull gwirfoddol neu statudol o weithredu.

Rydym wedi amlinellu ein pryderon am ddirywiad stociau eogiaid ac mewn rhai achosion, stociau brithyllod y môr ers nifer o flynyddoedd. Drwy gydol y cyfnod hwn, rydym wedi parhau i bwyso am yr angen am fesurau gwirfoddol brys. Gwnaeth pryderon penodol am 'eogiaid gwanwyn' arwain at weithredu yn 1999 (mesurau a adnewyddwyd yn 2009 am ail ddegawd) ar bysgota dal a rhyddhau statudol ar gyfer pysgod a ddaliwyd â gwialen cyn 16 Mehefin, ac ar gyfer pysgod a ddaliwyd cyn 1 Mehefin mewn pysgodfeydd rhwyd brithyllod y môr a eithriwyd.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf bu cynnydd o ran nifer y pysgod a ddychwelwyd yn wirfoddol ac mae enghreifftiau da lle mae pysgodfeydd unigol a rhai sefydliadau afonydd cyfan wedi

gwneud ymdrechion sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r holl glybiau, pysgodfeydd a physgotwyr ledled Cymru yn ymddangos fel pe baent wedi derbyn yr her i hyrwyddo neu annog pysgota dal a rhyddhau gwirfoddol. Ar rai o'n hafonydd 'Mewn Perygl', mae cyfraddau pysgota dal a rhyddhau gwirfoddol yn llai na 60%. Yn 2016, ar afonydd yng Nghymru lle y gellir cymryd eogiaid, dim ond 56% o bysgotwyr a oedd ddaliodd eogiaid oedd yn gweithredu'r dull pysgota a rhyddhau 100%. Roedd tua 24% wedi lladd yr holl eogiaid y gwnaethant eu dal.

Nid yw cyflwyno mesurau pysgota dal a rhyddhau statudol ar Afon Gwy wedi arwain at fethiant neu ddirywiad o ran gweithgarwch pysgota yn y dalgylch. Yn wir, mewn blynyddoedd diweddar bu cynnydd o ran y galw am fod mwy o bysgod i'w dal. Mae cyfres o fesurau gan gynnwys gwelliannau i gynefinoedd, gwella cysylltedd, mynd i'r afael ag ansawdd y dŵr yn ogystal â dulliau rheoli ymelwa yn y pysgodfeydd gwialen a rhwyd wedi cael effaith. Er y byddem yn derbyn bod pob afon yn cael ei rheoli'n wahanol o ran mynediad i bysgota, mae mwy o debygrwydd na gwahaniaethau rhyngddynt gyda chymysgedd o glybiau, darnau a gynghreiriwyd a physgodfeydd preifat a physgodfeydd tocyn diwrnod ar gael.

Rydym yn nodi o dan gyfundrefn wirfoddol bod yr opsiwn i ladd pysgod yn aml yn golygu ansicrwydd i bysgotwyr gan y bydd amheuaeth gyson bod pysgotwyr mewn mannau eraill yn lladd pysgod.

Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau bod y niferoedd uchaf posibl o bysgod yn goroesi i silio os ydym am gyflawni ein hymrwymiad i reoli ein pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy. Mae cyfundrefn statudol yn golygu mynd i'r afael â'r holl ansicrwydd o ran derbyn y mesur - mae pawb yn gwybod bod angen rhyddhau ac y byddai lladd pysgod yn golygu bod siawns y byddai camau gorfodi yn cael eu gweithredu.

**CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD**

Roedd dros 2,598 o drawiadau unigryw ar dudalen gwefan ein hymgynghoriad a gwnaethom dderbyn 549 o ymatebion. Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn anhysbys, nid oedd manylion cyswllt ar rai eraill, ac roedd nifer yn ailadrodd yr hyn a anfonwyd gan aelodau o gymdeithasau pysgota. Roedd cyfanswm o 70% o'r ymatebion y rhoddwyd manylion cyswllt ar eu cyfer yn deillio o ogledd Cymru.

Gwnaethom ymateb yn unigol i ohebwyr ac rydym wedi gosod Nodyn casgledig ar ymatebion ar ein gwefan, yn manylu ar yr ymatebion i'r holl gwestiynau a'r pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Rydym yn cydnabod nad oes cefnogaeth estynedig gan bysgodfeydd ar gyfer mesurau gorfodol, roedd tua 83% o ymatebwyr yn anghytuno â'n his-ddeddfau gwialen arfaethedig, tra bod tua 33% yn anghytuno â'r is-ddeddfau rhwyd arfaethedig.

Gwnaeth yr ymatebwyr hefyd gyfeirio at amrediad eang o ffactorau eraill sy'n effeithio ar stociau eogiaid a brithyllod y môr: Y deg mater a godwyd amlaf oedd:

1) Ysglyfaethu gan adar sy'n bwyta pysgod
2) Adnoddau Gorfodi – ni fyddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu gorfodi'r rheolau newydd

3) Dylid gwahardd yr holl rwydi
4) Y dystiolaeth dechnegol yn annigonol
5) Cyfyngiadau Bagiau (gyda chynllun tagio neu hebddo)
6) Byddai cynigion yn arwain at gau clybiau a/neu golli aelodau
7) Nid yw'r is-ddeddfau Eogiaid Gwanwyn wedi gwneud gwahaniaeth
8) Byddai'r cynigion yn arwain at leihad o ran gwerth economaidd
9) Pam nad ydych chi wedi ystyried dalfeydd 2017,
10) Llygredd amaethyddol yn niweidio ansawdd y dŵr

Gellir dod o hyd i ymatebion manwl i'r holl faterion hyn ar y nodyn casgliadol ar ein gwefan:

Nodyn casgliadol o'r ymatebion

Rydym yn ymwybodol o'r pryderon hyn. Rydym yn ymwybodol o'r perygl o leihad mewn pysgota ar gyfer clybiau a buddion eraill pysgodfeydd, sy'n digwydd yng nghyd-destun aelodaeth sy'n dirywio dros y ddeng mlynedd diwethaf. Mae'n debyg bod hyn wedi'i sbarduno, yn rhannol o leiaf, gan y lleihad yn niferoedd y pysgod.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldebau clir i amddiffyn eogiaid ac rydym o'r farn bod y dull gweithredu a gymerwyd yn cynnig y cydbwysedd mwyaf priodol rhwng anghenion pysgotwyr a chlybiau, a'r ddyletswydd i amddiffyn y rhywogaeth ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi gwrando ar yr holl bwyntiau a wnaed ac rydym wedi diwygio ein cynigion ynglŷn â thechnegau pysgota.

Rydym yn dal i gredu'n glir bod ein hachos technegol yn dadlau achos cywir a grymus dros gymryd camau gweithredu cadwraeth brys pellach er mwyn helpu i atal y dirywiad o ran statws stociau eogiaid a bod angen pysgota dal a rhyddhau gorfodol.

**CANLYNIAD BWRDD CYFOETH NATURIOL CYMRU**

Amlinellwyd ein cynigion diwygiedig yn ein hargymhelliad i gyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a gynhaliwyd ar 18.1.18 ar gyfer gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gadarnhad o'r is-ddeddfau arfaethedig. Drwy gymeradwyo hynny gwnaeth y Bwrdd gynghori y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi cynllun adfer afonydd Cymru gyfan ar waith i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau eraill sy'n cael effaith andwyol ar ein poblogaethau pysgod.

**PENDERFYNIADAU MEWN AWDURDODAETHAU ERAILL**

Mynegwyd pryderon tebyg yn yr Alban ac Iwerddon lle y cafodd pysgota dal a rhyddhau ei gyflwyno. Er hynny nid yw'n ymddangos fel pe bai tystiolaeth o gwymp neu ddirywiad o ran clybiau pysgota, pysgodfeydd neu gyfranogiad yn yr awdurdodaethau hyn.

Mae'n nodedig bod ymatebion tebyg i stociau eogiaid sy'n dirywio wedi'u cyflwyno mewn mannau eraill yn Ynysoedd Prydain. Gweler y blwch isod.

**DULLIAU RHEOLI PYSGOTA AR GYFER EOGIAID MEWN AWDURDODAETHAU ERAILL**

Lloegr
Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn lansio ei ymgynghoriad statudol ddechrau mis Mawrth. Mae eu cynigion yn cynnwys: -

Cau pysgodfeydd rhwydi drifft
Pysgota dal a rhyddhau statudol ar ddeg afon yr ystyrir eu bod 'Mewn Perygl'
Targedau o 90% o leiaf o bysgota dal a rhyddhau mewn 28 afon yr ystyrir eu bod 'Mewn Perygl Tebygol', gydag is-ddeddfau’n cael eu cynnig yn 2019 os na chaiff y targedau eu cyflawni
Adnewyddu is-ddeddfau eogiaid gwanwyn cenedlaethol sydd angen pysgota dal a rhyddhau llawn

Yr Alban
Roedd y trefniadau a gadarnhawyd ar gyfer 2018 yn cynnwys: -

Gwahardd cadw eogiaid a gafodd eu dal mewn dyfroedd arfordirol
Pysgota dal a rhyddhau statudol mewn 122 o afonydd
Pysgota dal a rhyddhau gwirfoddol mewn 21 o afonydd
Gellir cadw pysgod a gafodd eu dal gan wialen mewn 28 o afonydd.

Gweriniaeth Iwerddon
Roedd y trefniadau a gadarnhawyd ar gyfer 2018 yn cynnwys: -

68 o afonydd wedi'u cau ar gyfer pysgota eogiaid gan nad oes gormodedd o bysgod
Pysgota dal a rhyddhau statudol mewn 36 o afonydd
Gellir cadw pysgod a gafodd eu dal gan wialen mewn 42 o afonydd

Gogledd Iwerddon
"Gan fod stociau eogiaid yn dirywio ar draws holl wledydd Gogledd yr Iwerydd mae cyfyngiadau ar nifer yr eogiaid y gellir eu cadw."
Mae gofyniad felly i'r pysgota dal a rhyddhau fod yn weithredol ar gyfer yr holl eogiaid a brithyllod y môr a gaiff eu dal ar unrhyw adeg yn ardal drwyddedu DAERA ac eithrio pan fydd pysgod ar gael uwchlaw'r cyfyngiad cadwraeth.

**Amserlen**
Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd, gwnaethom gyflwyno ein cynigion diwygiedig i Lywodraeth Cymru ar 20 Chwefror mewn cais ar gyfer cadarnhau'r is-ddeddfau newydd fel y'u diwygiwyd.

Gallai Ysgrifennydd y Cabinet, ar ôl ystyriaeth ddyledus: -

- gymeradwyo ein cais a chadarnhau'r is-ddeddfau fel y'u diwygiwyd

- cymeradwyo'r is-ddeddfau gydag addasiadau eraill sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru
- gwrthod â chadarnhau'r is-ddeddfau gydag addasiadau neu hebddynt.